COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGORA 1/2/3, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR DYDD MAWRTH, 19 MAWRTH 2019, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | HM Williams | D Patel | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PJ White

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Lisa Jones | Arweinydd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ac Arian Adfywio |
| Robin Davies | Rheolwr Grŵp Strategaeth Fusnes a Pherfformiad |

328. DATGAN BUDDIANT

Dim.

329. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 12 ac 19 Chwefror 2019 yn gywir.

330. Y DIWEDDARAF AM BREXIT A'R GOFRESTR RISG

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Cyllid Adfywio ac Ymgysylltu Rhanbarthol adroddiad y Prif Weithredwr Dros Dro ar effaith bosibl Brexit ac ar y modd y mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer hynny, ac yn sail ar gyfer penderfyniadau'r Cyngor yn y dyfodol.

Yn dilyn pleidlais y mwyafrif i ymadael yn refferendwm y Deyrnas Unedig ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd ar 23 Mehefin 2016, mae llywodraeth y DU wedi bod yn gweithio tuag at ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar 29 Mawrth 2019. Dywedodd fod Deddf Ymadael 2018 sydd bellach yn gyfraith yn cynnwys darpariaethau a olygai fod holl gyfreithiau'r UE yn cael eu cynnwys yng nghyfraith y DU er mwyn rhoi sicrwydd cyfreithiol i fusnesau a phreswylwyr. Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio sicrhau cytundeb (y Cytundeb Ymadael) â'r UE fydd yn trafod ei pherthynas â'r UE o hyn allan, a lefel ei chyfranogiad ym Marchnad Sengl ac Undeb Tollau yr UE. Dywedodd nad oedd cytundeb wedi'i sefydlu ar hyn o bryd, ac felly mai ychydig o eglurder yr oedd ynghylch union effaith hyn ar y Cyngor ac ar Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar raddfa ehangach.

Hysbysodd Arweinydd y Tîm Cyllid Adfywio ac Ymgysylltu Rhanbarthol y Cabinet y byddai'r Llywodraeth yn gwneud cais i'r Senedd i estyn Erthygl 50. Fodd bynnag, y

sefyllfa ar hyn o bryd os na cheir unrhyw newid yw y bydd y DU yn ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2019.

Adroddodd Arweinydd y Tîm Cyllid Adfywio ac Ymgysylltu Rhanbarthol fod y Cyngor wedi sefydlu Fforwm Brexit mewnol ar draws y cyfarwyddiaethau, wedi'u cadeirio gan y Prif Weithredwr dros dro. Cylch gwaith y Fforwm yw archwilio effaith bosibl Brexit ar ddarpariaeth gwasanaeth ynghyd â chamau i liniaru rhag risgiau, a bydd hefyd yn archwilio unrhyw gyfleoedd posibl a allai godi yn sgil Brexit. Dywedodd fod asesiad risg wedi cael ei lunio, a'i gynnwys yn seiliedig ar gyfraniad arweinwyr maes gwasanaeth sy'n gweithio o fewn y Fforwm. Yr oedd hefyd yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd ar y cyd ag awdurdodau lleol ledled Cymru a phartneriaid eraill allweddol. Dywedodd mai dogfen fyw yw'r asesiad risg i raddau helaeth, a'i fod yn rhoi cipolwg o waith ar adeg benodol. Mae'r asesiad yn parhau i gael ei ddatblygu ymhellach ac yn cael ei adolygu'n ffurfiol yn holl gyfarfodydd y Fforwm Brexit. Dywedodd hefyd wrth y Cabinet fod Pecyn Gwaith Parodrwydd am Brexit, a luniwyd gan CLILC mewn partneriaeth â Grant Thornton, yn rhan o'u Rhaglen Gymorth Pontio Brexit, wedi bod yn ganllaw defnyddiol wrth geisio deall y risgiau a'r cyfleoedd posibl a geir yn sgil Brexit.

Adroddodd Arweinydd y Tîm Cyllid Adfywio ac Ymgysylltu Rhanbarthol nad oedd y testun yn gyflawn yn Risg 33, ac er mwyn cwblhau'r adran honno ychwanegwyd y geiriau canlynol: "rhoi cyfle i negodi prisiau, a pheidio llesteirio'r contract.

Ymdriniaeth - Gan nad oedd unrhyw dariffau WTO wedi'u cytuno, amcangyfrifir y bydd prisiau bwyd yn codi - awgrymir y dylid darparu ar gyfer isafswm o 20% o gynnydd i'r gyllideb ar gyfer bwyd."

Mynegodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio ddiolch i'r swyddogion am y gwaith a gyflawnwyd er mwyn llunio'r asesiad risg. Dywedodd mai safbwynt y Cabinet oedd y byddai'r Deyrnas Unedig a'r Fwrdeistref Sirol yn gryfach o fewn yr UE ac y dylid diddymu Erthygl 50. Rhoddodd yr Aelod Cabinet Cymunedau hefyd ganmoliaeth i'r swyddogion am yr adroddiad ac am y gwaith cynllunio ar gyfer Brexit, a oedd yn newid o hyd ac a oedd wedi rhoi straen ar adnoddau'r Cyngor. Roedd gwaith yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â Heddlu De Cymru yn gysylltiedig â phryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol a allai ddeillio o ymadael â'r UE.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a oedd rhai risgiau'n fwy na risgiau eraill. Dywedodd Arweinydd y Tîm Cyllid Adfywio ac Ymgysylltu Rhanbarthol wrth y Cabinet fod dangosfwrdd yn cael ei lunio sydd wedi cael ei weithredu ar lefel ranbarthol oherwydd presenoldeb nifer fawr o gwmnïau rhyngwladol, a gallai penderfyniad y DU i ymadael â'r UE effeithio ar amddifadedd. Dywedodd hefyd wrth y Cabinet fod y Tîm Adfywio yn gweithio gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol er mwyn rhannu arfer gorau.

Gofynnodd yr Arweinydd a oedd cadarnhad wedi'i dderbyn bod Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ychwanegol. Hysbysodd
Arweinydd y Tîm Cyllid Adfywio ac Ymgysylltu Rhanbarthol fod y cyllid ychwanegol yn dal heb ei gadarnhau, ond y byddai'n debygol o olygu £45,000 fesul awdurdod lleol.

Gofynnodd y Cabinet am gael darparu gwybodaeth dangosfwrdd ychwanegol a oedd bellach wedi'i chasglu ar lefel ranbarthol, er mwyn edrych ar yr effaith ar fusnesau.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylai'r Cabinet:

1. Nodi'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y Fforwm Brexit;
2. Ystyried cynnwys y ddogfen asesu risg, a

3. Cytuno i gael eu briffio ymhellach ar y manylion wrth i oblygiadau Brexit ddod yn gliriach.
4.

331. ATAL RHEOLAU'R WEITHDREFN GONTRACTAU A DYFARNU CONTRACTAU'R GWASANAETH LANDLORD CORFFORAETHOL

Gofynnodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol am gymeradwyaeth i ddyfarnu contract ar gyfer trefniadau rheoli dros dro a chefnogaeth ymgynghori i'r Gwasanaeth Landlord Corfforaethol o fewn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau; atal rhannau perthnasol o Reolau'r Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor mewn perthynas â'r gofyniad i aildendro'r contractau cyfredol a gaffaelwyd ar gyfer y gwasanaethau hyn ac awdurdodi'r Prif Weithredwr Dros Dro i ymrwymo i gontractau â'r darparydd presennol am gyfnod pellach o ddeunaw mis yn unol â thelerau diwygiedig.

Dywedodd fod Peopletoo Limited wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor dros y 18 mis diwethaf i drawsnewid y gwasanaethau Amgylchedd Adeiledig, ac er mwyn helpu'r Cyngor i symud tuag at wasanaeth Landlord Corfforaethol integredig, gan sicrhau gwelliannau mesuradwy o oddeutu £500,000 y flwyddyn. Mae gwelliannau ansawdd wedi cael eu cyflwyno yn gyffredinol, gan gynnwys gwelliant nodedig o ran cydymffurfiaeth asedau a bodlonrwydd cwsmeriaid, Dywedodd fod y Cyngor yn gallu dangos enillion cryf ar fuddsoddiad gan fod Peopletoo wedi cael eu comisiynu fel ymgynghorwyr yn wreiddiol drwy broses gaffael gystadleuol. Yn ogystal â hynny, roedd y Cyngor wedi caffael Peopletoo ar wahân drwy broses gaffael gystadleuol i ddarparu Rheolwr Dros Dro i'r Gwasanaeth Landlord Corfforaethol ar gyfer y 14 mis diwethaf.

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol - fod y Cyngor wedi ceisio penodi Rheolwr Dros Dro parhaol ar dri achlysur gwahanol, ond na fu modd iddo benodi unigolyn o safon ddigonol â sgiliau arwain uwch reolwr. Mae cyfnod contract y gwasanaeth ymgynghori gan Peopletoo bellach wedi dod i ben, ac mae'n bryd dirwyn y contract ar gyfer y swydd Rheolwr Dros Dro hefyd, ond heb gael hyd i ddatrysiad ymarferol arall ceir perygl difrifol na cheir arweinyddiaeth ar lefel uwch i'r gwasanaeth Landlord Corfforaethol, a hynny ar adeg lle mae llawer o heriau ariannol a gweithredol yn bodoli o hyd. Pe bai'r gefnogaeth uwch reoli yn dod i ben o fewn y gwasanaeth Landlord Corfforaethol, gallai hynny olygu na ellir cyflawni'r arbedion pellach a nodwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Gallai'r gwasanaeth hyd yn oed gymryd cam yn ôl a dad-wneud rhai o'r newidiadau cadarnhaol a gafwyd dros y deunaw mis diwethaf.

Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol adroddiad ar gynnig i benodi Peopletoo am gyfnod pellach o ddeunaw mis i reoli'r broses o weithredu, ac o fod yn atebol am gyflawni'r mentrau newydd hyn, gan weithio'n agos gyda thimau presennol i sicrhau'r canlyniadau gofynnol o ran cyllid a pherfformiad. Yn ogystal â hyn, byddai Peopletoo yn cymryd drosodd y gwaith o reoli'r maes gwasanaeth yn uniongyrchol yn ystod y cyfnod dan sylw, drwy ddarparu Rheolwr Dros Dro ac unrhyw gefnogaeth arall sydd ei hangen. Yr hyn a gynigir yn ei hanfod yw gwasanaeth rheoli am gyfnod penodol. Ar ddiwedd y cyfnod hwn bydd y Cyngor yn derbyn gwasanaeth cryf sefydlog ac wedi cyflawni'r swm sylweddol o arbedion ychwanegol. Rhan bwysig o'r comisiwn newydd fyddai penodi Rheolwr Landlord Corfforaethol parhaol llawn-amser cyn diwedd comisiwn Peopletoo er mwyn sicrhau cyfnod pontio hwylus. Dywedodd mai'r cyfanswm a fyddai'n daladwy i Peopletoo am y contract newydd arfaethedig dros y cyfnod o ddeunaw mis fyddai rhwng £300,000 a £350,000, ac y byddai'r Cyngor yn elwa ar £500,000 yn ychwanegol mewn arbedion refeniw blynyddol, a hefyd wedi osgoi costau cyflog o fwy na £100,000.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cabinet:

- Gytuno i atal rhannau perthnasol o Reolau'r Weithdrefn Contractau yn gysylltiedig â'r gofyniad i aildendro'r contractau ar gyfer cefnogaeth ymgynghori a Rheoli Dros Dro i'r gwasanaeth Landlord Corfforaethol;
- Awdurdodi'r Prif Weithredwr ros dro i ymrwymo i gontract â Peopletoo am gyfnod pellach o ddeunaw mis.

## 332. NEWID PWYLLGOR CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL YN GYSYLLTIEDIG Â'R RHAGLEN CEFNOGI POBL

Gofynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Perfformiad a Phartneriaeth am gymeradwyaeth i dynnu'n ôl yn ffurfiol o Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bae'r Gorllewin; i ymuno'n ffurfiol â Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf ac i enwebu a phenodi Aelod Cabinet i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf.

Dywedodd ei bod hi'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol fod yn aelod o Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, a chymryd rhan yn y pwyllgor hwnnw, yn ôl Canllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i bob PCRh gyfarfod bedair gwaith y flwyddyn o leiaf, ac mae 6 PCRh yn weithredol ar draws Cymru.

Gofynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Perfformiad a Phartneriaeth am gymeradwyaeth i dynnu'n ôl yn ffurfiol o Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bae'r Gorllewin; i ymuno'n ffurfiol â Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf ac i enwebu a phenodi Aelod Cabinet i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf.

Dywedodd ei bod hi'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol fod yn aelod o Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, a chymryd rhan yn y pwyllgor hwnnw, yn ôl Canllawiau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i bob PCRh gyfarfod bedair gwaith y flwyddyn o leiaf, ac mae 6 PCRh yn weithredol ar draws Cymru.

Dywedodd hefyd mai aelod o'r Tîm Cefnogi Pobl a'r Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol sydd yn cynrychioli'r awdurdod ar hyn o bryd ar PCRh Bae'r Gorllewin.  Gan y bydd y cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn yr ardal hon yn trosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf o 1 Ebrill 2019, cynigiwyd y dylai'r Cyngor hwn drosglwyddo o PCRh Bae'r Gorllewin i PCRh Cwm Taf yn unol â'r newid hwn i ffin y Bwrdd Iechyd.  Roedd angen cymeradwyaeth i roi rhybudd ffurfiol i adael PCRh Bae'r Gorllewin o 1 Ebrill 2019 yn unol â'r newid i ffin y Bwrdd Iechyd. Gofynnwyd hefyd am gymeradwyaeth i benodi Aelod Cabinet i fod yn bresennol ac i gymryd rhan yn PCRh Cwm Taf, ac i'r penodiad fod yn gysylltiedig â'r rôl yn hytrach na'r Aelod unigol.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylai'r Cabinet:

- Gymeradwyo i'r Awdurdod dynnu'n ôl o Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Bae'r Gorllewin a rhoi cymeradwyaeth i ymuno'n ffurfiol â Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf yn unol â'r newid i ffin y Bwrdd Iechyd;
- Enwebwyd a phenodwyd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf.

## 333. GWASANAETHAU CYMUNEDOL INTEGREDIG - CYTUNDEB ADRAN 33

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gynnydd o ran gweithredu'r achos busnes i gyflenwi gwasanaethau gofal canolraddol

integredig ar raddfa optimaidd, a gofynnodd am gymeradwyaeth i ymrwymo i gytundeb adnewyddu ar gyfer darparu gwasanaethau i oedolion a phobl hŷn (gofal canolraddol) gydag Ymddiriedolaeth y GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BI PABM) ar gyfer 2018/2019. Gofynnodd hefyd am awdurdod dirprwyedig mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, i negodi ac ymrwymo i gytundeb partneriaeth ffurfiol er mwyn darparu gwasanaethau i oedolion a phobl hŷn (gofal canolraddol) rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (BI Cwm Taf) ar ôl newid ffin y bwrdd iechyd ym mis Ebrill 2019.

Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y Cabinet fod cyllid wedi'i fuddsoddi, yn sgil yr achos busnes, mewn model gwasanaeth gofal canolraddol optimaidd, a oedd yn cynnwys 3 elfen: Pwynt Mynediad Cyffredin; Ymateb Brys ac Ailalluogi. Dywedodd fod yr achos busnes wedi denu buddsoddiad drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol. Wrth ymrwymo i'r Achos Busnes, cefnogodd y Cabinet argymhelliad i 'gymeradwyo mewn egwyddor sefydlu trefniant i gyfuno adnoddau â phartneriaid yn Rhaglen Bae'r Gorllewin, yn amodol ar greu cytundeb ffurfiol yn unol ag Adran 33 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 erbyn mis Ebrill 2015'.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, wrth gymeradwyo'r Achos Busnes ar gyfer Gwasanaethau'r Haen Ganolraddol, y cafwyd cymeradwyaeth i sefydlu cronfa gyfun ffurfiol yn unol ag Adran 33 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Daeth y cytundeb hwnnw i rym o 1 Hydref 2015, a daeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Parhaodd y partïon i ddarparu'r gwasanaeth o dan lywodraeth y Cyd-fwrdd Partneriaeth, fel pe bai darpariaethau'r Cytundeb Adran 33 gwreiddiol yn dal mewn grym tra bo'r partïon yn cytuno ar delerau'r cytundeb diwygiedig. Mae cytundeb bellach wedi'i sefydlu â BI PABM ynghylch telerau'r Cytundeb Adran 33 diwygiedig, a ddaw i rym o 1 Ebrill 2018 hyd at yr adeg pan fydd ffin y bwrdd iechyd yn newid ar 1 Ebrill 2019.

Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y Cabinet fod BI Cwm Taf, yn ystod y trefniadau pontio ar gyfer newid ffin y bwrdd iechyd, wedi dangos ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflenwi gwasanaethau gofal canolraddol i'r Gwasanaethau Oedolion a Phobl Hŷn. Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r nod o ymrwymo i gytundeb partneriaeth ffurfiol a ddaw i rym o 1 Ebrill 2019. Bwriedir i'r gwasanaethau integredig hyn gael eu cynnwys yn rhan o'r cytundeb partneriaeth diwygiedig â BI Cwm Taf.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cabinet:

- Gymeradwyo ymrwymo i adnewyddu Cytundeb Adran 33 o Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 â BI PABM ar gyfer darparu gwasanaethau i oedolion a phobl hŷn (gofal canolraddol) ar gyfer 2018/19. ac

- Y dylid rhoi awdurdod dirprwyol i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, negodi ac ymrwymo i gytundeb ffurfiol ar gyfer darparu gwasanaethau i oedolion a phobl hŷn (gofal canolraddol) â BI Cwm Taf yn unol â pharagraff 4.4 yr adroddiad.

334. NEWID FFINIAU'R BYRDDAU IECHYD – Y DIWEDDARAF

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y newyddion diweddaraf am sefyllfa gyfredol ffin newydd y Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill 2019.

Er na fydd y newid yn tarfu ar wasanaethau cyffredinol i'r un graddau â gwasanaethau'r Byrddau Iechyd, hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y Cabinet, fod y newidiadau i'r ffiniau yn effeithio ar nifer o wasanaethau'r Cyngor. Oherwydd yr angen i ddiogelu gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y cyfnod hwn o aflonyddwch posibl, ac er mwyn sicrhau parhad yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg ar ôl 1 Ebrill 2019, mabwysiadwyd dull strwythuredig o ddatgyfuno gwasanaethau rhanbarthol. Er mwyn gwneud hynny bu'n rhaid gweithio'n agos ag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn sicrhau, lle bo cyllid rhanbarthol yn ariannu gwasanaethau integredig, y rhoddir cyfrif am y gwasanaethau hynny rhwng Bae'r Gorllewin, Bwrdd Iechyd PABM a'r Cyngor.

Er mwyn cynllunio ar gyfer newid ffiniau rhanbarthol, dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wrth y Cabinet fod Rhaglen Bontio wedi'i sefydlu a oedd yn cynnwys swyddogion o'r ddau Fwrdd Iechyd, y Cyngor a'r Trydydd Sector. Tynnodd sylw at strwythur llywodraethu'r cytundebau partneriaeth newydd a fyddai'n weithredol o 1 Ebrill 2019. Dywedodd fod y partneriaid wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion o'r cychwyn cyntaf a fyddai'n tanategu gwaith y Rhaglen Bontio ac yn sail er mwyn i'r holl bartneriaid ddwyn eu hunain, a'r naill a'r llall, i gyfrif am gyflawni'r newidiadau gofynnol. Pennwyd yr egwyddorion yng nghyd-destun ymrwymiad i sicrhau'r cyfle gorau posib i wella iechyd a llesiant y boblogaeth a wasanaethir gan y sefydliadau.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd fod yr holl drefniadau cyd-ariannu rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr a BI PABM wedi'u nodi, ac amcangyfrifwyd bod CBS Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd yn derbyn mwy na £5 miliwn gan BI PABM yn gysylltiedig â'r trefniadau hyn. Cytunwyd mewn egwyddor na fyddai'r newid ffin a gynlluniwyd na chynlluniau pontio yn cael unrhyw effaith andwyol ar unrhyw drefniadau cyd-ariannu. Bydd y Cyngor yn parhau i fod â threfniadau cyd-ariannu â rhanbarthau Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg ar ôl i'r ffiniau newydd ddod i rym. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wrth y Cabinet fod Cyllid Gofal Integredig a Chyllid Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau wedi'u datgyfuno er mwyn gwahanu dosraniad ardal Pen-y-bont ar Ogwr a fyddai wedyn yn mynd i ranbarth Cwm Taf Morgannwg mewn pryd ar gyfer blwyddyn ariannol newydd 2019/20, ac roedd cytundeb wedi'i geisio ynghylch hyn oddi wrth y ddau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £30 miliwn yn ychwanegol o gyllid refeniw y Gronfa Gofal Canolraddol ar gyfer Cymru gyfan, ac amcangyfrifir y bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn derbyn £1.3 miliwn o'r swm hwn. O ran cyllid cyfalaf, roedd £1.5 miliwn yn 2019/20 ac £11.8 miliwn yn 2020/21 wedi'i nodi ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y rhagwelwyd na cheid unrhyw oblygiadau ariannol niweidiol o ran y ddwy gronfa gyfunol yn sgil newid ffiniau. Tynnodd sylw at y gwasanaethau a fyddai wedi'u cynnwys i'w trosglwyddo i'r rhanbarth newydd ar 1 Ebrill 2019.

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd y bydd newid ffiniau'r bwrdd iechyd hefyd yn cael effaith sylweddol ar drefniadau partneriaeth rhanbarthol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol drefnu i hyrwyddo cydweithrediad â phartneriaid perthnasol ac eraill yn gysylltiedig ag oedolion sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Fel aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r

Gorllewin, mae'r Cyngor hwn wedi ymrwymo i nifer o gytundebau partneriaeth ffurfiol ac anffurfiol, a byddai angen iddo dynnu'n ôl o'r cytundebau hynny ac ymrwymo i gytundebau newydd â phartneriaid yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Roedd gwaith hefyd ar y gweill i dynnu'n ôl o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin, ac roedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael gwahoddiad i fod yn aelod o Fyrddau yn rhanbarth Cwm Taf.

Mynegodd yr Arweinydd ddiolch i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Tîm am y gwaith a gyflawnwyd cyn newid ffiniau'r bwrdd iechyd. Dywedodd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y cafwyd gwaith diwyd iawn, gan gydweithio â'r Trydydd Sector.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am gadarnhad ynghylch cyllid i gefnogi ffrydiau gwaith trosiannol. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod £80,000 o gyllid wedi'i sicrhau gan PABM a oedd yn cael ei ddefnyddio i reoli'r prosiect trosglwyddo ac i ddarparu cefnogaeth gyfreithiol ac ariannol gref.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cabinet:

1) nodi'r ymagwedd a'r cynnydd a wnaed hyd yma;
2) nodi'r newidiadau i enwau Rhanbarthol;
3) cytuno i enwebu Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i gynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg a dirprwyo penodiad unrhyw aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol nad ydynt yn aelod o'r awdurdod lleol nac yn aelod o'r bwrdd iechyd i aelodau a enwebir gan y Cyngor ar y cyd â chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol eraill a'r Bwrdd Iechyd Lleol;
4) cymeradwyo'r rhestr o wasanaethau a fydd yn trosglwyddo ym mis Ebrill 2019, a'r rhai a oedd yn trosglwyddo yn ystod 2019/20.
5) dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, i ymrwymo i unrhyw gytundebau angenrheidiol er mwyn negodi neu drosglwyddo'r holl gytundebau contractio parhaus â PABM i Fwrdd Iechyd Cwm Taf.

335. GOFAL CYMDEITHASOL PLANT – PECYNNAU CYMORTH PRIFYSGOL AR GYFER YMADAWYR GOFAL

Gofynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant am gymeradwyaeth ar gyfer Polisi ynghylch Pecynnau Cymorth Prifysgol ar gyfer ymadawyr gofal.

Dywedodd fod y polisi a oedd wedi'i ddatblygu yn amlinellu'r trefniadau i gyflawni'r ymagwedd a gymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2018, lle byddai ymadawyr gofal yn cael cefnogaeth i ymgeisio am fenthyciadau a grantiau i dalu am eu ffioedd addysgu. Byddai gofal cymdeithasol plant yn darparu lwfans wythnosol i'r myfyriwr a bwrsari yn ychwanegol at y grantiau y mae ganddynt hawl i'w derbyn.

Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod pobl ifanc sydd eisoes yn y Brifysgol yn parhau i dderbyn cymorth yn unol â'r trefniadau cyfredol. Dywedodd fod yr Awdurdod yn talu cymhelliant wythnosol am 40 wythnos (ee, £25 yr wythnos); bydd y myfyriwr yn derbyn £9,000 o'r Benthyciad Ffioedd Addysgu ar gyfer y ffi addysgu, ac yn defnyddio'r Grant Costau Byw i dalu am lety a chostau cynhaliaeth. Bydd taliadau dewisol hefyd yn cael eu hystyried. Bydd y myfyriwr yn elwa ar y taliad cymhelliant wythnosol yn ychwanegol at y benthyciadau a'r grantiau sydd ar gael iddo. Darperir y Bwrsari (traean o £2,000) ar ôl cwblhau pob blwyddyn ac academaidd i gynnal y myfyriwr dros wyliau'r haf.

Wrth ganmol y polisi, dywedodd yr Aelod Cabinet Addysg fod y gefnogaeth i'r polisi gan Bwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet wedi bod yn galondid iddo. Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod nifer yr ymadawyr gofal sy'n mynd i addysg uwch, a'r ffaith bod un o'r rheiny wedi ymrestru ar gwrs Meistr, yn galonogol.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cabinet:

- gymeradwyo'r Polisi Pecynnau Cymorth Prifysgol ar gyfer Ymadawyr Gofal
- nodi y dylid adolygu'r effaith ariannol o fewn 12 mis ac adrodd yn ôl ar y canfyddiadau wrth Bwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet er mwyn cael sylwadau.

336. CYNNIG I DDATGYFUNO'R GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID O DREFNIADAU BAE'R GORLLEWIN

Gofynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant am gymeradwyaeth i ddatgyfuno'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr oddi wrth gynllun cydweithredol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar Bae'r Gorllewin.

Adroddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mai partneriaeth aml-asiantaeth statudol yw'r gwasanaeth/timau troseddau ieuenctid a chanddynt ddyletswydd gyfreithiol i gydweithredu er mwyn sicrhau gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid sy'n briodol i'w hardal ac a ariennir o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a phartneriaid statudol. Dywedodd fod Timau Troseddau Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi bod yn rhan o wasanaeth cydweithredol gwirfoddol ers 2014, a bod holl weithgarwch y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar draws rhanbarth Bae'r Gorllewin wedi cae lei oruchwylio a'i fonitro gan Fwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar Bae'r Gorllewin.

Gan fod ffin y bwrdd iechyd yn newid, gyda hynny'n dod i rym o 1 Ebrill 2019, dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod holl bartneriaid Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth wedi cytuno y byddai'n adeg dda i ddirwyn y cynllun cydweithredol i ben. Mae swyddogion wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gael dosbarthu'r grant Hyrwyddo Ymgysylltu Cadarnhaol i bob awdurdod lleol, ac rydym yn disgwyl cadarnhad ynghylch hyn. Os cymeradwyir datgyfuno, bydd y gwasanaeth yn gweithio fel gwasanaeth unigol unwaith eto, er bod trafodaethau wedi cychwyn â GTI Cwm Taf, gyda chyfleoedd i gydweithio ar draws y ffin ar brosiectau penodol.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cabinet:

1) gymeradwyo datgyfuno Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr oddi wrth Wasanaeth Cyfiawnder

Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar Bae'r Gorllewin erbyn is Mawrth 2019, fel y nodwyd yn adran 4 o'r Adroddiad; a

2) dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Chymorth i Deuluoedd) i gytuno ar delerau Cytundeb Lefel Gwasanaeth ag Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ynghylch y grant PPE ar gyfer un flwyddyn bontio os na allai Llywodraeth Cymru rannu'r grant ar gyfer 2019-2020 ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio.

337. GWAHODD TENDRAU AR GYFER CONTRACTAU GWASANAETH BWS TRAFNIDIAETH O'R CARTREF I'R YSGOL

Gofynnodd y Rheolwr Grŵp (Strategaeth Busnes a Pherfformiad) am gymeradwyaeth i gynnal ymarfer caffael i wahodd tendrau i ymgeisio am gontractau ar gyfer amryw o wasanaethau bws o'r cartref i'r ysgol am gyfnod o 5 mlynedd, gyda dewis i ymestyn am ddau gyfnod arall o flwyddyn. Cyfanswm gwerth dangosol y cyfnod llawn fyddai £17.9 miliwn.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp (Strategaeth Busnes a Pherfformiad) y bydd y contractau bysus mawr cyfredol ar gyfer trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2019. Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor, ac i geisio sicrhau gwerth am arian, gofynnwyd am ganiatâd i gychwyn ymarfer caffael newydd i gystadlu am gontractau bws mawr, a dyfarnu'r contractau hynny. Bydd hyn yn cynnwys 79 o lwybrau teithio ar wahân a dull cystadleuaeth agored, wedi'i gynnal gan y Tîm Caffael Corfforaethol. Dywedodd mai'r nod, wrth ddyfarnu contractau am gyfnod o 5 mlynedd gyda'r dewis i ymestyn am ddau gyfnod pellach o flwyddyn, oedd annog buddsoddiad, cryfhau trefniadau contractio presennol a'r posibilrwydd o agor y farchnad i gyflenwyr newydd. Dywedodd wrth y Cabinet, o dan Reolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor, mai un o swyddogaethau'r Cabinet yw penderfynu caffael gwasanaethau yr amcangyfrif bod eu gwerth yn uwch na £5 miliwn.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am esboniad ynghylch sefyllfa'r Cyngor o ran adolygu trafnidiaeth ysgol, ac ynghylch y gallu i derfynu contract. Dywedodd y Rheolwr Grŵp (Strategaeth Busnes a Pherfformiad) wrth y Cabinet y gall y Cyngor dynnu'n ôl o gontract ysgol drwy roi mis o rybudd, os yw'r llwybr yn troi'n llwybr diogel i'r ysgol yn ddiweddarach ac nad yw dysgwyr felly'n gymwys i gael eu cludo i'r ysgol. Dywedodd fod yr adolygiad strategol o drafnidiaeth i'r ysgol wedi'i ohirio yn sgil Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, ac y gallai rhai llwybrau presennol gael eu tynnu'n ôl. Dywedodd hefyd wrth y Cabinet ei bod hi'n anodd cyfuno llwybrau ysgol mewn sypiau gan fod ysgolion yn dechrau ac yn gorffen ar amseroedd gwahanol, er y byddai swyddogion yn gwneud hynny wrth ddefnyddio cerbydau llai.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a fyddai'r adolygiad strategol o drafnidiaeth ysgol yn ystyried dichonadwyedd defnyddio fflyd y Cyngor o gerbydau ar gyfer trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol. Dywedodd y Rheolwr Grŵp (Strategaeth Busnes a Pherfformiad) fod angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ddefnyddio'r fflyd o gerbydau drwy gydol y dydd, ond bod rhai ysgolion yn defnyddio fflyd y Cyngor. Dywedodd wrth y Cabinet hefyd fod potensial i ddefnyddio cerbydau deulawr, ac y byddai hynny'n cael ei ystyried fesul achos. Fodd bynnag, nid yw'r cerbydau hynny gan lawer o weithredwyr. Gallai defnyddio bysus deulawr fod yn fwy economaidd. Dywedodd hefyd wrth y Cabinet y ceir trefniadau i gyfathrebu â chontractwyr cyfredol. Gofynnodd yr Arweinydd am gael hysbysu darpar ddarparwyr trafnidiaeth i'r ysgol ynghylch yr adolygiad ac o'r posibilrwydd y bydd y contract yn newid yn sgil hynny.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cabinet:

- awdurdodi gwahodd tendrau fel y nodir yn yr adroddiad
- nodi bod adolygiad yn cael ei gynnal o drafnidiaeth ysgolion, a gofyn i swyddogion gyfathrebu â darpar ddarparwyr trafnidiaeth ysgolion ynghylch hyn er mwyn sicrhau tryloywder.
- awdurdodi derbyn y tendrau mwyaf manteisiol yn economaidd a dderbynnir, a dyfarnu contractau i'r ymgeiswyr llwyddiannus yn dilyn y broses gaffael.

338. RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION - BAND B

Gofynnodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 am gymeradwyaeth i derfynu penderfyniad y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018 i fynd ar drywydd Opsiwn 2 er mwyn cyflawni agweddau ariannol Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Rhoddodd wybod i'r Cabinet am y newid i gyfradd ymyrraeth grant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol; gofynnodd am gymeradwyaeth i fynd ar drywydd Opsiwn 3 er mwyn cyflawni agweddau ariannol Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, cyn cyflwyno gerbron y Cyngor, ac i'r Cyngor gymryd rhan ym mhroses gaffael y Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Dywedodd fod gwaith moderneiddio ysgolion wedi'i sefydlu fel un o brif raglenni strategol y Cyngor. Esboniodd gefndir yr ysgol wrth y Cabinet. Yn 2010, cymeradwyodd y Cabinet y cynlluniau a argymhellwyd ac a oedd wedi'u cynnwys ym mhob un o bedwar band y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion (A-D), ac y manylwyd arnynt yn sgil hynny yn Rhaglen Amlinellol Strategol Ysgolion yr 21ain Ganrif. Ym mis Gorffennaf 2017, terfynodd y Cabinet y cynlluniau Band B gwreiddiol a oedd wedi'u nodi ym mis Tachwedd 2010, a chymeradwyo rhestr ddiwygiedig, yn seiliedig ar y galw cynyddol am leoedd, y gofyniad i hyrwyddo'r Gymraeg a chyflwr adeiladau. Er mwyn paratoi am Fand C y rhaglen, rhoddodd y Cabinet hefyd gymeradwyaeth i gynnal adolygiadau ardal ac arfarniad o opsiynau yn ystod cyfnod Band B. Ym mis Ionawr 2017, cafwyd cymeradwyaeth mewn egwyddor oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer ail don o fuddsoddiad o £68.2 miliwn. Ym mis Ionawr 2018, rhoddodd y Cyngor gymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer yr ymrwymiad ariannol yr oedd ei angen ar gyfer Band B. Cyfradd ymyrraeth Model Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru ar y pryd oedd 75%, wedi'i thalu i'r awdurdod ar ffurf grant refeniw. Hysbyswyd y Cabinet ym mis Tachwedd 2018 fod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi newid i'r gyfradd ymyrraeth ar gyfer grant cyfalaf, lle'r oedd ei chyfraniad ar gyfer Band B wedi cynyddu i 75% ar gyfer ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion a 65% ar gyfer pob cynllun arall. Byddai cyfradd ymyrraeth y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC) yn parhau ar 75%. Ym mis Rhagfyr 2018, cefnodd y Cabinet ar y penderfyniad a wnaed ym mis Tachwedd 2018 a rhoi cymeradwyaeth i fynd ar drywydd opsiwn lle byddai'r holl ysgolion ym mand B yn cael eu hariannu drwy grant cyfalaf, yn amodol ar ganfod a neilltuo digon o adnoddau i fodloni'r ymrwymiad o ran arian cyfatebol.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 fod Llywodraeth Cymru, ym mis Chwefror 2019, wedi cyflwyno newid i'r gyfradd ymyrraeth ar gyfer cynlluniau MBC Band B, ac y byddai'r model diwygiedig yn elwa ar gynnydd o 6% yn y gyfradd ymyrraeth, o 75% i 81%. Yn sgil y gyfradd newydd, roedd swyddogion wedi ailgyfrifo'r ffigurau. Wrth symud ymlaen ag MBC Band B, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ffurfioli'r broses o gaffael Partner Cyflenwi'r Sector Preifat, y gofynnwyd cyn hynny i'r awdurdodau lleol gadarnhau eu hymrwymiad. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gael ystyried yr opsiynau a ganlyn:

Opsiwn 1 - Cymryd rhan yn y rhaglen gychwynnol
Opsiwn 2 - Y posibilrwydd o gymryd rhan yn y dyfodol
Opsiwn 3 - Peidio cymryd rhan

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adan 151 fod y Cyngor wedi cymeradwyo cwmpas o £71.3 miliwn ar gyfer y rhaglen, a oedd yn cynnwys £68.2 miliwn ar gyfer adeiladau ysgol newydd Band B, a £3.1 miliwn o waith priffyrdd posibl, gyda'r holl gynlluniau wedi'u hariannu drwy grant cyfalaf. Tynnodd sylw at gymhariaeth o MBC a chynlluniau grant cyfalaf, ynghyd â 4 opsiwn ariannu a dadansoddiad o opsiynau 2 a 3. Dywedodd y bydd angen benthyca i fodloni'r ymrwymiad cyfalaf ar gyfer opsiwn 2, ac mai benthyciad bach fyddai ei angen ar gyfer opsiwn 3, a pha opsiwn bynnag fyddai'n cael ei ddewis, y byddai'n creu pwysau ar gyllidebau cyfalaf a refeniw y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd mai'r rhaglen moderneiddio ysgolion fydd ymrwymiad cyfalaf mwyaf y Cyngor, ac mai dyna fydd ei brosiect pwysicaf. Dywedodd hefyd fod angen hyblygrwydd gan fod y model ariannol wedi newid.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol am gadarnhad ynghylch effaith bosibl y cynnydd mewn cyfraddau llog. Dywedodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 y byddai'n darparu
gwybodaeth ychwanegol i'r Cabinet am effaith cynnydd posibl mewn cyfraddau llog ar gyflawni Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cabinet:

- gefnu ar y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 19 Rhagfyr 2018 o ran mynd ar drywydd Opsiwn 2 er mwyn cyflawni agweddau ariannol Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion;
- nodi'r newid i gyfradd ymyrraeth MBC grant LlC ar gyfer Band B;
- cymeradwyo mynd ar drywydd Opsiwn 3 er mwyn cyflawni agweddau ariannol Band B, yn amodol ar ganfod a neilltuo adnoddau i fodloni'r ymrwymiad o ran arian cyfatebol;
- cymeradwyo cyflwyno adroddiad i'r Cyngor er mwyn diwygio'r rhaglen gyfalaf i adlewyrchu'r uchod; a
- rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr Dros Dro lofnodi llythyr o fwriad yn gysylltiedig â model cyflawni'r MBC, yn amodol ar ganlyniad adolygiad y Gwasanaethau Cyfreithiol o ddogfennau contract/cytundeb LlC yn hynny o beth, ac ar gytuno ar y dogfennau hynny.

339. COMISIYNU A DYFARNU CONTRACTAU MEWN PERTHYNAS Â'R RHAGLEN TEULUOEDD YN GYNTAF

Gofynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Perfformiad a Phartneriaeth am gymeradwyaeth i barhau i gyflenwi'r gwasanaeth yn seiliedig ar y trefniadau contract sydd ar waith ar hyn o bryd i gyflawni contractau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf am gyfnod o 3 mis o 1 Ebrill 2019 hyd 30 Mehefin 2019. Gofynnodd hefyd am gael atal y rhan honno o Reolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor y gysylltiedig â'r Contractau arfaethedig a restrwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad a oedd yn gysylltiedig â'r gofynion i aildendro'r Contractau hyn, a gofynnodd am awdurdod i ymrwymo i gontractau byrdymor â'r darparwyr cyfredol.

Dywedodd y byddai'r contractau estynedig presennol a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019, a byddai disgwyl i'r Cyngor fod wedi aildendro am wasanaethau newydd bryd hynny. Er ei bod hi'n hanfodol cynnal ymarfer aildendro, dywedodd fod y cyfnod pontio presennol o ran trefniadau ariannu yn atal y Cyngor rhag cynnal yr ymarfer comisiynu gofynnol ar hyn o bryd. Dywedodd wrth y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gynlluniau cyflawni newydd gael eu cyflwyno yn fuan ym mis Chwefror, na fyddai'n caniatáu digon o amser i aildendro gwasanaethau o 1 Ebrill 2019. Gan hynny byddai angen ymrwymo i gontractau byrdymor newydd a fyddai'n golygu bod angen atal Rheolau'r Weithdrefn Gontractau a dyfarnu contractau'n seiliedig ar y trefniadau contract cyfredol am gyfnod dros dro o 3 mis.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cabinet:

a. atal y rhannau perthnasol yn Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor yn gysylltiedig â'r gofyniad i aildendro'r contractau arfaethedig a restrir yn Atodiad 1 yr adroddiad;
b. awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Perfformiad a Phartneriaeth i ymrwymo i gontractau byrdymor 3 mis o hyd â'r darparwyr cyfredol o ran y Contractau a restrir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

340. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Adroddodd y Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio ar yr adroddiadau gwybodaeth a ganlyn a oedd wedi cael eu cyhoeddi ers cyfarfod diwethaf y Cabinet:

Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2017-18
Adroddiad Monitro - Cwynion, Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cabinet gydnabod bod y dogfennau a restrwyd yn yr adroddiad wedi'u cyhoeddi.

341. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

342. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem a ganlyn, o dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y cafodd ei diwygio gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, gan fod yr eitem honno'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 ac ym Mharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y cafodd ei diwygio gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

Ar ôl cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus, penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, er mwyn trafod yr eitem a ganlyn yn breifat, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir uchod.

343. CYMERADWYAETH COFNODION WEDI'U EITHRIO